# BAGLORIAETH CYMRU

## Cyfnod Allweddol 4
## Cenedlaethol/Sylfaen

# Her y Gymuned

## Cymunedau Digidol Cymru - Hyfforddi

**Ar gael i'w asesu o fis Mai 2017**

ⓗWJEC CBAC Cyf.

## Helpu gydag e-ddiogelwch yn y gymuned

**PWRPAS**

Pwrpas Her y Gymuned yw meithrin sgiliau dysgwyr, wrth annog dysgwyr i nodi, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd fydd o fudd i'r gymuned. Yn ystod Her y Gymuned, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym meysydd **Cynllunio a Threfnu** ac **Effeithiolrwydd Personol** ac yn eu rhoi ar waith mewn modd priodol.

**BRIFF**

Rhaglen cynhwysiant digidol gan Lywodraeth Cymru yw **Cymunedau Digidol Cymru**, sy'n cael ei darparu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Nod Her y Gymuned **Cymunedau Digidol Cymru** yw annog pobl ifanc sydd wedi eu magu yn yr oes ddigidol ac sy'n gyfforddus wrth ddefnyddio technoleg, i drosglwyddo eu sgiliau i gefnogi ac annog pobl eraill i ddefnyddio technoleg mewn ffordd ddiogel.




Fel unigolyn neu aelod o dîm (3-6 o aelodau), bydd angen i chi wneud y canlynol i gwblhau'r her:

- ymgymryd â hyfforddiant '**Arwyr Digidol**' i gefnogi darpariaeth eich gweithgaredd cymunedol. Bydd hyn yn datblygu eich sgiliau cefnogi, i helpu pobl eraill i ddeall pwysigrwydd **e-ddiogelwch**, i ddatblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol a'ch helpu i ddeall gweithdrefnau iechyd a diogelwch a gwneud asesiad risg pan fo hynny'n berthnasol.
- ar ôl i chi gyflawni'r hyfforddiant, byddwch yn nodi cyfleoedd i gynnal sesiynau digidol a fydd yn datblygu'r ddealltwriaeth o **e-ddiogelwch** gyda'ch cynulleidfa darged.
- byddwch yn treulio o leiaf **2 awr** yn cynllunio ac yn datblygu sesiynau **e-ddiogelwch** i fodloni anghenion eich cynulleidfa darged. Bydd adnoddau ar gael i chi ar wefan **Cymunedau Digidol Cymru**.
- byddwch yn treulio o leiaf **8 awr** yn gweithio ac yn cyfathrebu â phobl eraill yn eich cymuned ynglŷn â sut i fod yn ddiogel ar-lein wrth ddefnyddio technoleg at ddibenion go iawn.

**Adnoddau**
[Cymunedau Digidol Cymru]

**Cysylltwch â**
Marc Davies
Ffôn: 07766 501904
e-bost: marc.davies@wales.coop